


'Y llynedd, dechreuais
wneud gymnastrig, sy'n
llawer iawn o hwyl!'
Katie, 12 oed, Caerdydd



'Rwy'n mwynhau
darllen llyfrau.'
Luca, 2 oed,
Sir Benfro



'Rwy'n hoffi canu yn
Gymraeg!'
Celyn, 3 oed, Ceredigion



'Rwy'n edrych ymlaen yn fawr
at ddechrau yn y chweched
dosbarth yn yr hydref ar ôl
gorffen fy arholiadau TGAU.'
Tomos, 16 oed, Aberdâr



'Rwy'n hoffi mynd
i fwydo'r ceffylau!'
Harriet, 13 oed,
Casnewydd



Y Ffeithiau

Ymddiriedolwyr ar 31 Mawrth 2015

J Frank Holmes	Steve Jones	Paul Lubas
Christine Barber	Meryl Davies	Alison Ivin
Dr Cathy White	Richard Tynen	Ieuan Coombes
Martin Gush		

Staff ar 31 Mawrth 2015

Tim Therapi

Renée Brouwers
Helen Burnford
Jennifer Carroll

Stuart Doyle
Dawn Forbes
Laura Harding

Davina Isaac
Sue Jervis
Malgorzata Jon
Belinda Miles
Marissa Mount
Lucie Sherwood
Rina van der Walt

Tim Codi Arian

Emma Brooks

Claire Brown
Caroline Davies
Julia Forrester
Gail Griffiths
Jemma Hughes
Melanie Meo-Sherwood
Laura Minton-Hughes
Nia Richards
Laura Jayne Smith

Rheolwr Therapi - Ffisiotherapydd
Therapydd Lleferydd ac Iaith
Cyfarwyddwr y Ganolfan -
Ffisiotherapydd
Ffisiotherapydd
Ffisiotherapydd
Cynorthwydd Prosiect Effeithiolrwydd
Clinigol
Ffisiotherapydd
Therapydd Galwedigaethol
Ffisiotherapydd
Ffisiotherapydd
Therapydd Galwedigaethol
Cynorthwydd Therapi
Therapydd Lleferydd ac Iaith

Cydlynnydd Ymddiriedolaethau a
Chymynroddion
Uwch Gydlynnydd Digwyddiadau
Cydlynnydd Codi Arian Cymunedol
Cynorthwydd Cymorth Manwerthu
Pennaeth Codi Arian a Manwerthu
Cydlynnydd Marchnata a Chyfathrebu
Cynorthwydd Cymorth Manwerthu
Cynorthwydd Cymorth Codi Arian
Uwch Gydlynnydd Digwyddiadau
Cynorthwydd Cymorth Codi Arian

Noddwr Brenhinol:
Noddwr:
Llysgenhadon:

Tim Manwerthu
Edmonda Bahja
Anthony Brooks
Nicole Brown
Bethan Flood
Paul Jenkins
Leah Moore
Mike Morgan
Angela Parsons
Sarah Rhoden
Julie Toozer
Kay Wallace

Tim Gweinyddol

Kate Boddington
Matt Collins
Glenys Evans
Rhian Gape
Cathy Rogers
Joan Temple
Maria Toor
Nicola Williams

Mae Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant, rhif cwmni 2691690

Cyfarwyddwyr ar 31 Mawrth 2015: Paul Lubas, J Frank Holmes, Ieuan Coombes

Ysgrifennydd y Cwmni: Paul Lubas
Swyddfa Gofrestredig: 19 Heol y Parc, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 7BP

Bancwyr: Barclays Bank plc, St David's Way, Caerdydd CF10 2DP
Archwilwyr: Partneriaeth Tŷ Clifton, Tŷ Clifton, Four Elms Road, Caerdydd, CF24 1LE

Ffôn: 02920 522600
E-bost: info@bobathwales.org

Ei Huchelder Brenhinol Duges Caerloyw GCVO
Bryn Terfel CBE
Peter Karrie, Lucy Owen, Margaret Williams
Cara Readle, Lynn Bowles, Matthew Rhys

Rheolwr Siop
Rheolwr Siop
Dirprwy Reolwr Siop
Rheolwr Siop
Gyrrwr Fan
Dirprwy Reolwr Siop
Gyrrwr Fan/Cynorthwydd Cynnal a Chadw
Rheolwr Masnachol yr Ardal
Rheolwr Siop
Dirprwy Reolwr Siop
Dirprwy Reolwr Siop


Cynorthwydd Gweithrediadau
Cynorthwydd Gweithredol i Gyfarwyddwr y Ganolfan
Cydlynnydd Cymorth i Deuluoedd
Gweinyddwr y Dderbynfa
Pennaeth Gweithrediadau
Gweinyddwr y Dderbynfa
Gweinyddwr Apwyntiadau/Cadw Cyfrifon
Gweinyddwr Gwasanaethau Therapi

Ffacs: 02920 521477
Gwefan: www.bobathwales.org

Crynodeb Ariannol


Incwm 2014-15

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	£75,826
Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM	£50,929
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	£55,003
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	£45,729
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	£40,946
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	£49,802
Arian iechyd arall	£4,044
Cymynroddion	£175,175
Elusen Henry Smith	£40,000
Sefydliad Moondance	£30,000
Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd	£7,865
Smart Solutions	£16,743
Sefydliad Jane Hodge	£10,000
Ymddiriedolaethau a Chorfforaethau Eraill	£90,461
Rhoddion Preifat	£72,006
Noddi Plentyn	£15,704
Siopau	£347,863
Teithiau beic, marathonaau ac ati	£29,184
Dawns Flynyddol	£11,196
Miss Cymru	£1,540
Digwyddiadau a gweithgareddau eraill	£89,265
Cyrsiau Therapi	£1,575
Incwm arall	£443
Llog banc	£791
Cyfanswm	£1,262,088



Gwariant 2014-15

Staff therapi	£460,934
Staff cymorth	£155,844
Staff codi arian	£159,098
Staff manwerthu	£129,207
Colled ar waredu	£1,816
Costau cyflogres	£1,743
Llywodraethu	£15,985
Dibrisiant	£49,840
Rhentu Prydlesi Gweithredu	£63,193
Costau eraill	£220,739
Cyfanswm	£1,258,399



Incwm	
Incwm gwirfoddol	£457,952
Gweithgareddau i gynhyrchu arian	£479,048
Gweithgareddau i hyrwyddo amcanion yr elusen	£323,854
Arall	£1,234
Cyfanswm	£1,262,088
Gwariant	
Cost cynhyrchu arian	£463,226
Gweithgareddau elusennol	£542,601
Costau cymorth	£236,587
Llywodraethu	£15,985
Cyfanswm	£1,258,399
Gwarged ar gyfer y flwyddyn	£3,689

Mae'r cyfrifon llawn ar gael ar ein gwefan.



Training Nantgarw.

Mae ein gwirfoddolwyr a'n Grwpiau Ffrindiau yn parhau i'n synnu gyda'u cymorth, eu hymroddiad a'u haelioni, yn ogystal â'r unigolion sy'n cynnal digwyddiadau codi arian ar ein cyfer. Mae Ysgolion, Clybiau a Chymdeithasau yn grŵp arall rydym yn dibynnu arno, ac yn ogystal â diolch i bawb a gymerodd ran yn Pobi dros Bobath neu Deithiau Cerdded Esgidiau Glaw, hoffwn ddiolch yn arbennig i holl aelodau Clwb Ceir Clasurol De Cymru, sydd wedi cefnogi'r elusen bob blwyddyn ers ei sefydlu.

Os bydd unrhyw ymholiadau gennych neu os hoffech ein cefnogi, cysylltwch â'r ffm codi arian. Byddem yn falch iawn o glywed gennych.

Gail Griffiths

Mae ein digwyddiadau blynyddol yn dal i fod yn ffrwd incwm sylweddol, ac maent wedi cynnwys Pobi dros Bobath, A Question of Women, Diwrnod Golff, Ras Cychod Dreigiau, Dawns 'End of the Pier', Parti Jingle Bell Rock, Cyngerdd Carolau a'n Cinio Rhwydweithio Corfforaethol gyda Chadeirydd Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, Mehmet Dalman. Gwnaethom gymryd rhan yn Niwrnod Parlys yr Ymennydd y Byd yn ogystal â chynnal nifer o ddigwyddiadau yn ystod mis Hydref fel rhan o Fis Ymwybyddiaeth Parlys yr Ymennydd.

Diolch o galon i'n cefnogwyr corfforaethol, a oeddyn cynnwys Banc Barclays, Canolfan Siopa Capitol Caerdydd, Harding Evans Solicitors Casnewydd, SET Office Supplies Hwlfordd, CMB Engineering Caerdydd, Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd a Talk



Adroddiad Codi Arian a Manwerthu

Mae codi arian yn dal yn her i ni, ac rydym yn parhau i chwilio am ffyrddau incwm newydd er mwyn ein galluogi i weld rhagor o blant er mwyn rhoi therapi iddynt a chynnal a chadw'r Ganolfan.

Agorwyd ein siop elusen gyntaf yn Llanisien, Caerdydd ym mis Hydref 2010 a thyfodd ein gweithrediadau manwerthu pan agorwyd ein pedwaredd siop elusen yn y Barri ar ddiwedd mis Medi 2014. Mae'r siopau wedi cyfrannu £347,863 yn y flwyddyn ariannol hon, ac rydym yn hynod ddiolchgar i'n teulu gwyh o wirfoddolwyr, rhoddwyr a chwsmeriaid sydd wedi gwneud hyn yn bosibl. Rydym yn falch o gyhoeddi ein bod yn bwriadu agor siop goffi yn Rhiwbeina, Caerdydd yn 2015.



Am yr ail flwyddyn yn olynol, cawsom wahoddiad i anfon cynrychiolwyr i Barti Gardd y Frenhines ym Mhalas Buckingham.



Cafwyd cymynroddion nodedig gwerth £80,000, £15,000 a £75,000 yn ystod y flwyddyn a hoffem ddiolch i'r cymwynaswyr hynny sydd wedi gadael rhodd i Bobath Cymru yn eu hewyllys. Mae nifer y rhoddion er cof wedi cynyddu ac rydym yn hynod ddiolchgar i'r teuluoedd a'r ffrindiau hynny sy'n rhoi i Bobath Cymru er cof am eu hanwyliaid.



Gwnaeth Ymddiriedolaethau a Sefydliadau gyfraniad pwysig at y gwaith o godi arian i'r Ganolfan, a cawsom gymorth gan sawl ymddiriedolaeth newydd eleni. Rydym yn dal i gael arian gwerthfawr gan Elusen Henry Smith (£40,000) tuag at ein gwaith ym maes Effeithiolrwydd Clinigol, a gan Sefydliad Moondance (£30,000) tuag at therapi arbenigol. Rhoddodd Sefydliad Jane Hodge ac Ymddiriedolaeth John Horniman arian er mwyn galluogi plant sydd ar ein rhestr aros i gael ail ymweliad ac rydym yn ddiolchgar am gael cymorth parhaus gan y Sefydliad ACT, Sefydliad Jane Hodge a Sefydliad Mackintosh. Rhoddodd sawl ymddiriedolaeth newydd, megis Sefydliad Cenedlaethol y Plant ac Ymddiriedolaeth Plant Crackerjacks arian tuag at gyfarpar arbenigol megis Platfform Symudedd AKKA a meddalwedd Gaze Viewer i'w defnyddio gyda'n systemau Eye Gaze. Rydym yn hynod ddiolchgar i'n holl gefnogwyr ariannol; i gael rhestr lawn o'n cefnogwyr ariannol, ewch i'n gwefan.

gyfer plant y mae angen cymorth arnynt i gymryd rhan, ac roedd y teuluoedd yn gwerthfawrogi'r cyfle i dreulio amser gyda'i gilydd mewn amgylchedd diogel yn gwneud rhywbeth na fyddent fel arall wedi'i ystyried.

Ansawdd a Datblygiad Proffesiynol

Er bod ymagwedd Bobath tuag at therapi yn sefydledig, mae'n newid yn barhaus mewn ymateb i ymchwil newydd ac adborth gan gleifion. Mae gan ein therapyddion ymagwedd drylwyr tuag at eu datblygiad proffesiynol parhaus, ac maent bob amser yn adlewyrchu egwyddor Bobath o therapi yn seiliedig ar asesu a dadansoddi trylwyr, fel sail ar gyfer eu rhesymegu clinigol.

Eleni, cafodd staff therapi hyfforddiant mewn technoleg Eyegaze, anadlu ymhlith plant sydd â pharlys yr ymennydd, hemiplegia, dadansoddi cerddeddiad a rheoli orthoteg, a gwnaethant gymryd rhan mewn sawl fforwm clinigol a grŵp rhwydweithio. Mae un therapydd yn parhau i weithio ar ei gradd Meistr mewn Therapi Galwedigaethol, gan ganolbwyntio ar waith trawsddisgyblaethol.

Diolch i arian parhaus gan Elusen Henry Smith, mae ein prosiect



effeithiolrwydd clinigol yn parhau i edrych ar y dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio mewn therapi ac ychwanegu ati. Mae'r gwaith hwn yn bwysig, ac rydym yn ei rannu drwy gyfleoedd addysgu a mynychu cynadleddau clinigol. Roedd yr uchafbwyntiau yn cynnwys cwrs Cyfarwyddol ar Bennu Amcanion ar gyfer Plant ag Anghenion Cymhleth, cyflwyno dau boster academaidd yng nghyfarfod Academi Anabledd Plant Ewrop yn Vienna a chyflwyno ein gwaith ar blant a enir yn gynamserol yng nghyfarfod Tiwtoriaid Bobath Ewrop yn Warsaw.

Diolch

Hoffwn ddiolch i'r holl staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr am eu hymroddiad a'u gwaith caled eleni. Mae Bobath Cymru yn lle arbennig iawn i weithio ynddo, ac rydym yn cael gweld y gwahaniaeth rydym yn ei wneud bob dydd. Mae ein cynlluniau ar

gyfer y dyfodol yn cynnwys ymestyn ein safle neu adleoli er mwyn darparu rhagor o therapi, gan barhau i wthio ffiniau gwybodaeth glinigol yn y maes arbenigol hwn a gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o barlys yr ymennydd ledled Cymru. Helpwch ni os gallwch wneud hynny ac ymunwch â ni ar ein taith gyffrous!

Jennifer Carroll MA MCSP PGC(HE)

Adroddiad Cyfarwyddwr y Ganolfan

Darparu gwasanaeth

Eleni, gwnaethom ddarparu therapi ar gyfer 295 o blant a phobl ifanc, drwy gymysgedd o fodelau gwasanaeth. Unwaith eto, rydym wedi cyflwyno modelau newydd er mwyn ceisio ateb y galw cynyddol am ein gwasanaeth arbenigol a sicrhau ein bod mor hygyrch â phosibl.



Blociau llawn ar gyfer plant yn y Ganolfan	92
Blociau llawn ar gyfer pobl ifanc	5
Plant a welwyd mewn blociau allgymorth	14
Plant a welwyd mewn diwrnodau datrys problemau	66
Oedolion ifanc a welwyd mewn Diwrnodau datrys problemau	2
Plant a welwyd ar Ddiwrnodau cydweithredol	6
Plant a gafodd flociau dychwelyd	29
Sesiynau ymgynghori Sengl a Chychwynnol	57
Plant a fynychodd y Gwersyll Hud a Lledrith 2 wythnos	10
Blociau Sgiliau Byw Annibynnol	3
Plant a gafodd therapi fel rhan o ddiwrnodau hyfforddi	11



Y flwyddyn nesaf, rydym yn awyddus i ddatblygu'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig i'r plant ieuengaf sydd â pharllys yr ymennydd, yn unol â thystiolaeth ymchwil bod y ddwy flynedd a hanner gyntaf ym mywyd plentyn yn cynnig y cyfle gorau i'r system nerfol newid a datblygu.



Cymorth Teuluol

Mae cymorth teuluol yn dal i fod yn hanfodol, gan ei fod yn rhoi cyngor a gwybodaeth y tu allan i'r sesiynau therapi. Gwnaethom ddarparu 56 o sesiynau cymorth i deuluoedd, pedwar bore coffi er mwyn galluogi rhieni i gwrdd â'i gilydd, Bwletin rheolaidd i Deuluoedd ac, am y tro cyntaf, cynhaliwyd nifer o seminarau i deuluoedd. Cafodd y rhain groeso da a buont yn ymdrin â materion megis cymorth cyntaf, patrymau cysgu a gemau addasedig.



Ym mis Hydref, gwnaethom gynnal digwyddiad gwybodaeth yng Nghynulliad Cymru, gan gyflwyno ein gwaith diweddaraf ar ddull o drin sy'n seiliedig ar dystiolaeth a darparu fforwm er mwyn i rai o'n teuluoedd gwrdd â'u Haelodau Cynulliad.



Yn olaf, gyda chymorth caredig nawdd gan nifer o gwmnïau lleol, gwnaethom lwyddo i gynnal digwyddiad sglefrïo iâ i deuluoedd yng ngwesty'r Celtic Manor dros y Nadolig. Cafodd y sesiynau sglefrïo eu cynllunio ar

Neges y Cadeirydd



Unwaith eto, rydym wedi gweld blwyddyn o ymdrechion penodol sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth arloesol gyda'r nod o sicrhau bod y Ganolfan yn parhau i dyfu, gan ddarparu therapi o'r safon uchaf i blant a phobl ifanc sydd â pharlys yr ymennydd. Wrth bennu cyfeiriad strategol yr elusen, mae'r ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r angen i gynnal lefelau arbenigedd o'r radd flaenaf, tra'n parhau i gynnig cymorth i gymaint o deuluoedd â phosibl.



Eleni, rwy'n falch o nodi bod yr elusen wedi gwneud elw bach o £3,689. Wrth i ni barhau i ddatblygu ein gwasanaethau, mae ein costau yn cynyddu hefyd, sy'n golygu ei bod hyd yn oed yn fwy calonogol gweld yr hyn y mae'r fîm codi arian wedi'i gyflawni wrth ateb yr her hon. Unwaith eto yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd yr ymddiriedolwyr yn buddsoddi yn seilwaith y gwasanaeth, gydag adnoddau ychwanegol o ran therapyddion, yn ogystal â buddsoddi mewn ffrydiau incwm manwerthu ychwanegol er mwyn ceisio â dygymod â'r sail gostau gynyddol.



Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddarparu triniaeth ar gyfer 295 o blant a phobl ifanc, drwy fodelau gwasanaeth amrywiol a amlinellir yn adroddiad Cyfarwyddwr y Ganolfan. Roedd hyn yn cynnwys rhaglen therapi Gwersyll Hyd a Lledrith newydd, a oedd yn cyfuno therapi, i helpu plant â pharlys unochr i reoli mathau penodol o symud, gyda sgiliau hud a lledrith a ddysgwyd gan Breathe Arts. Roedd y sioe hud a lledrith ar ddiwedd y pythefnos o weithgareddau yn dangos y cynnydd yn sgiliau a hyder y plant, ac roedd yn llwyddiant ysgubol ar gyfer pawb a gymerodd ran ynddi.

Hefyd, ymddangosodd yr elusen ar raglen Plant Mewn Angen, sef apêl deledu flynyddol y BBC, a chafodd ganmoliaeth am ei defnydd o dechnoleg Eyegaze ar gyfer plant sydd ag anawsterau cyfathrebu.

Mae ein rhestr aros yn her o hyd, gyda llawer o blant yn gorfod aros am fwy o amser nag sy'n ddelfrydol ar gyfer ymweliadau dychwelyd. Un o'n blaenoriaethau allweddol, felly, yw mynd i'r afael â hyn drwy gynyddu adnoddau, datblygu modelau gwasanaeth ychwanegol ac effeithiol a rhannu ein harbenigedd â thimau cymunedol. Mae gormod o blant yng Nghymru nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth arbenigol hwn, neu sy'n ein cyrraedd yn hwyrach na'r hyn a fyddai'n ddelfrydol o ran eu lles.

Roedd yn ffrainth gennym groesawu ein noddwr, Duges Caerloyw, i'r Ganolfan a'i chyflwyno i ddefnyddwyr y gwasanaeth a gwirfoddolwyr.

I gloi, hoffwn ddiolch fel arfer i'm cydymddiriedolwyr, y staff a'r gwirfoddolwyr, y plant a'r teuluoedd sy'n dod i'r Ganolfan ac sy'n gwneud ein hymdrechion mor werthfawr. Edrychwn ymlaen at flwyddyn heriol ond gwerth chweil arall yn 2015-16.

J Frank Holmes



Diwrnod ym mywyd Canolfan Therapi Plant Bobath

Ydych chi erioed wedi meddwl beth sy'n digwydd yn y Ganolfan? Mynnwch fwy o wybodaeth...

Yn y bore, mae staff yn datgloi ac yn agor y Ganolfan, ac yn paratoi'r ystafelloedd ar gyfer gweithgareddau'r dydd. Mae Rhian a Lucie yn helpu i symud y cyfarpar yn Ystafelloedd 4 a 5 cyn i'r plant gyrraedd ar gyfer eu hapwyntiadau.

Mae'r fîm Codi Arian yn croesawu un o'r teuluoedd sy'n dod i mewn am sesiwn bore ac sydd hefyd yn digwydd bod yn codi arian i Bobath drwy nenblymio!

Mae Ffisiotherapydd cymunedol yn mynychu sesiwn gyda phlentyn y mae'n ei weld bob wythnos fel y gall weld y gwaith y mae'n ei wneud yma yn y Ganolfan.

Mae'n ddiwrnod prysur, yn enwedig yn y Dderbynfa, gan fod cyfweiliadau yn cael eu cynnal yn y Ganolfan heddiw ar gyfer swydd yn y fîm codi arian, felly mae pobl yn cyrraedd am gyfweiliadau drwy'r dydd. Yn y cyfamser, mae Caroline yn cynnal cyfarfod sefydlu i wirfoddolwyr yn Ystafell 6 er mwyn rhoi ychydig mwy o wybodaeth am Bobath i'r rhai fydd yn gwirfoddoli yn y siopau a dangos y Ganolfan iddynt.

Mae Paul a Mike yn cyrraedd gyda fan Bobath er mwyn casglu dillad a roddwyd a'u cludo i siopau elusen Bobath, lle y byddant yn cael eu gwerthu er mwyn helpu i godi arian.

Cynhaliwyd ymgyrch casglu arian mewn bwcedi yn ddiweddar mewn canolfan siopa leol, ac mae Niccy yn cyfri'r rhoddion a gawsom o'r ymgyrch codi arian gymunedol hon. Mae Cathy yn diwygio'r rhagolwg ar gyfer y mis hwn, yn seiliedig ar yr incwm rydym wedi'i gael hyd yma, a bydd yn ei anfon at yr Ymddiriedolwyr fel y gallant gadw golwg ar ein sefyllfa ariannol.



Yn y cyfamser, mae Glenys yn cael cyfarfod cymorth i deuluoedd gydag un teulu yn dilyn eu sesiwn therapi. Mae'r teulu yn cael rhai problemau gyda chlodiant i'r ysgol ac o ran cydbwysu'r gwaith o ofalu am eu mab, sydd â pharllys yr ymennydd, â diwallu anghenion ei frodyr a'i chwiorydd. Maent hefyd yn cael trafferthion sy'n ymwneud â phatrymau cysgu a gall greu cryn dipyn o straen. Gall Glenys gynnig atebion ymarferol iddynt.

Mae'n amser cinio, ac mae un teulu yn bwyta eu cinio yn ein cegin, sydd wedi'i haddasu'n arbennig, cyn iddynt deithio'n ôl i Bowys yn dilyn eu sesiwn therapi gyda Sue a Stuart yn y bore.

Mae'r fîm therapi yn cael sesiwn diwtora cyn amser cinio. Maent yn defnyddio'r tiwtorialau hyn i drafod datblygiad plant, ymarfer therapi, ac maent yn aml yn defnyddio'r amser hwn i adolygu fideo o un plentyn mewn sesiwn. Mae hyn yn golygu y gallant roi a derbyn adborth a rhannu syniadau sy'n ymwneud â therapi.

Mae Nia ac un o'n gwirfoddolwyr ar eu ffordd i gyfweiliad radio gyda Radio Cardiff i sôn am gyfleoedd i wirfoddoli gyda Bobath a'r digwyddiadau y byddwn yn eu cynnal dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Mae un o'r oedolion ifanc sy'n cael therapi ar hyn o bryd yn astudio bloc Sgiliau Byw'n Annibynnol, ac mae wedi bod yn gweithio gyda Marissa yn y gegin er mwyn gwella ei gallu i wneud cinio iddi'i hun. Maent wedi bod yn ymarfer defnyddio tegell ac offer cegin eraill. Bydd y sesiynau yn y dyfodol yn canolbwyntio ar sgiliau a fydd yn ei helpu i ddefnyddio allwedd ei drws ffrynt a thrin darnau arian.

Mae pob diwrnod yn wahanol, ond maent i gyd yn brysur iawn!



Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru

Adolygiad Blynyddol ac

Adroddiad ar Effaith 2014/15

